Mae'r drwydded gweithgaredd gollwng dŵr yn drwydded i ollwng dŵr môr a ddychwelwyd o'r system dŵr oeri, y system adfer a dychwelyd pysgod, ac elifion masnach hylifol eraill (gan gynnwys elifion carthion wedi'u trin) i Fôr Hafren.

Yn y cais, gofynnwyd i Asiantaeth yr Amgylchedd wneud y newidiadau hyn i'r drwydded:

- cael gwared ar yr holl gyfeiriadau at y ddyfais atal pysgod yn acwstig (AFD)
- cael gwared ar yr holl gyfeiriadau at effeithiau alldynnu dŵr oeri oherwydd nad yw Asiantaeth yr Amgylchedd yn rheoleiddio hyn o'r môr agored
- ychwanegu gollwng dŵr môr a biomas o'r system adfer a dychwelyd pysgod

Buom yn ymgynghori ar y cais rhwng 24 Ionawr a 2 Mawrth 2023 ac ar ein penderfyniad arfaethedig a'n trwydded ddrafft rhwng 25 Ebrill a 25 Mai 2023.

Rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'n hymgyngoriad a mynchu ein cyfarfodydd ymgynghori ar-lein.

Rydym wedi asesu'r cais am drwydded ac ystyriwyd yr ymatebion a gawsom o'r ddau ymgynghoriad. Rydym bellach wedi gwneud penderfyniad terfynol ynghylch a ddylem roi'r drwydded, ac os felly, pa amodau y dylai eu cynnwys.

Ein penderfyniad terfynol yw y dylem ganiatáu'r amrywiad trwydded y mae'r gweithredwr wedi gofyn amdano. Rydym wedi ychwanegu terfynau ac amodau newydd yn y drwydded i ddiogelu pobl a'r amgylchedd.

Mae'r ddogfen hon yn ymdrin â cham olaf ein proses i benderfynu ar yr amrywiad i'r cais am drwydded amgylcheddol ar gyfer gweithgareddau gollwng dŵr yng ngorsaf ynni niwclear Hinkley C. Mae'n rhoi crynodeb o'n penderfyniadau. Gallwch ddod o hyd i esboniadau manylach yn [nogfen y penderfyniad](#).

# Gorsafoedd ynni niwclear newydd – barn y llywodraeth

Mae polisi ynni, gan gynnwys y defnydd o bŵer niwclear, yn fater i'r llywodraeth.

Cyhoeddodd y Llywodraeth [Bapur gwyn ar ynni: Pweru ein Dyfodol Sero Net](#) yn 2020 a nododd yr angen am ynni niwclear, ymhlið mesurau eraill, i helpu'r DU i gyrraedd sero net erbyn 2050.

Yn 2022, cyhoeddodd y llywodraeth [Strategaeth Diogelwch Ynni Prydain](#) ac, yn 2023, ei chynllun ar gyfer gweithredu'r strategaeth hon yn [nogfennau Powering Up Britain](#). Mae'r rhain yn cadarnhau nod y llywodraeth i 24GWe o niwclear newydd gael ei ddefnyddio yn y DU erbyn 2050, gan ddarparu tua chwarter ein galw am drydan.

Er mwyn helpu cyflawni'r nod hwn mae'r llywodraeth wedi creu [Great British Nuclear \(GBN\)](#) i fod yn gorff cyflawni ar gyfer niwclear newydd yn y DU. Tasgau cychwynnol GBN yw datblygu cynllun ar gyfer nod 2050 a dewis y technolegau i'w defnyddio er mwyn galluogi dau benderfyniad (penderfyniadau buddsoddi terfynol) ar ddatblygiadau niwclear yn y senedd nesaf.

Rydym wedi cyhoeddi ein cynllun ein hunain, [EA2025 creu lle gwell](#) i arwain ein gweithgareddau.

Ceir 3 nod yn ein cynllun gweithredu 5 mlynedd (EA2025):

- cenedl sy'n wydn i newid hinsawdd
- awyr, tir a dŵr iach
- twf gwyrdd a dyfodol cynaliadwy

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r llywodraeth, partneriaid rheoliadol, y diwydiant ac eraill i alluogi cynhyrchu ynni niwclear. Tra byddwn yn gwneud hyn, byddwn yn sicrhau fod pobl a'r amgylchedd yn cael eu diogelu'n briodol. Mae niwclear yn ffynhonnell ynni carbon isel a allai gyfrannu'n sylweddol at nodau sero net a gweithredu Strategaeth Diogelwch Ynni Prydain.

Mae ein prosesau yn cyd-fynd â nodau EA2025 oherwydd eu bod yn sicrhau bod gorsafoedd ynni niwclear wedi'u dylunio a'u gweithredu mewn ffyrdd sy'n lleihau gwastraff, yn ystyried cynaliadwyedd ac yn gwarchod yr amgylchedd.

## Rheoleiddio gorsafoedd ynni niwclear

Mae'r broses ar gyfer asesu a chaniatáu gorsafoedd ynni niwclear newydd fel arfer yn cael ei rhannu'n 2 gam.

# Asesiad Dyluniad Generig

Y cam cyntaf yw'r [asesiad dylunio generig \(GDA\)](#), lle rydym yn asesu'r agweddu amgylcheddol ar ddyluniad gorsaf bŵer a fyddai'n berthnasol i unrhyw safle. Rydym yn cynnal GDA o ddyluniad newydd ar gais y llywodraeth. Mae GDA yn ein galluogi i ddechrau craffu ar gynlluniau gorsafoedd ynni niwclear newydd ymhell cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau. Mae hyn yn golygu y gallwn nodi unrhyw faterion dylunio posibl yn gynnar a gofyn i'r ymgeisydd fynd i'r afael â hwy. Ar ddiwedd y GDA, rydym yn darparu datganiad am dderbynioleb y dyluniad.

Rydym wedi [cynnal GDA](#) blaenorol ar y dyluniad sy'n cael ei adeiladu yn Hinkley Point C, a elwir yn UK EPR™ EDF-Areva.

## Trwyddedau amgylcheddol

Er mwyn adeiladu a gweithredu gorsaf bŵer newydd ar safle penodol, rhaid i gwmni hefyd wneud cais am drwyddedau amgylcheddol gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae'r trwyddedau hyn yn berthnasol i'r canlynol:

- ymchwilio a pharatoi safle
- gwaith adeiladu a 'datblygiadau cysylltiedig' perthnasol – megis llety gweithwyr
- gweithredu a datgomisiynu'r orsaf bŵer

Wrth benderfynu a ddylid caniatáu'r trwyddedau, byddwn yn ystyried materion sy'n berthnasol i'r safle penodol yn ogystal â'r GDA ar gyfer y dyluniad arfaethedig ar gyfer y safle.

Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) sy'n rheoleiddio diogelwch safleoedd niwclear.

Darllenwch am ein rôl fel [rheoleiddiwr ar safleoedd niwclear](#).

## Ynglŷn â Hinkley

Mae gorsafoedd ynni niwclear Hinkley Point ar arfordir gogleddol Gwlad yr Haf. Hinkley Point A oedd gorsaf bŵer gyntaf Hinkley Point. Bu'n weithredol rhwng 1965 a 2000 ac mae'n cael ei datgomisiynu ar hyn o bryd.

Dechreuodd Hinkley Point B weithredu ym 1976. Nid yw'n cynhyrchu ynni ers 1 Awst 2022.

Mae NNB Generation Company (Hinkley Point C) Ltd, cwmni EDF Energy, yn adeiladu gorsaf bŵer niwclear adweithydd dwbl newydd ar y safle. Disgwylir y bydd yr adweithydd cyntaf yn weithredol yn 2027.

Darllenwch am ein rheoliad o [orsaf bŵer Hinkley Point C](#).

Mae'r ddelwedd isod yn dangos enghraifft o ddatblygiad Hinkley Point C.




## Dyluniad EPR™ y DU

Mae amrywiol fathau o adweithyddion niwclear i'w cael ledled y byd. Un o'r mathau mwyaf cyffredin yw'r adweithydd dŵr dan wasgedd (PWR), yn cynnwys EPR™ y DU. Mae'r dyluniad hwn yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd yn Hinkley Point C yng Ngwlad yr Haf.

Yng nghraidd yr adweithydd, mae rhai o'r atomau wraniwm sy'n ffurio'r tanwydd yn holli mewn proses a elwir yn ymholltiad niwclear. Mae'r hollliadau hyn yn creu gwres mewn proses barhaus o'r enw adwaith cadwynol. Caiff y gwres a grëir drwy holli niwclear ei ddefnyddio i gynhesu dŵr y tu mewn i'r adweithydd, sy'n cael ei gylchredeg gan bympiau yn y prif gylchred i eneradur stêm. Yn y generadur stêm, caiff dŵr poeth iawn y cylchred cyntaf ei ddefnyddio i gynhesu dŵr yn yr ail gylchred sydd ar wahân. Mae hyn yn cynhyrchu stêm sydd yna'n cael ei fwydo i dyrbin. Mae hyn yn achosi i'r tyrbin droi a gyrru generadur sy'n cynhyrchu ynni.

Mae'r ddelwedd hon yn dangos sgematig wedi'i symleiddio o'r adweithydd EPR™.



Ar gyfer pob adweithydd, mae'r prif gyfleusterau cymorth niwclear yn cynnwys pwll llawn dŵr ar gyfer storio tanwydd niwclear sydd wedi'i ddefnyddio (wedi darfod) a systemau trin dŵr ar gyfer cynnal cemeg y cylchedau dŵr cynradd ac eilaidd. Mae rhai cyfleusterau hefyd yn cael eu rhannu gan y 2 eneradur, gan gynnwys storfa tanwydd a ddefnyddiwyd dros dro a storfa gwastraff ymbelydrol lefel canolig.

Mae 12 o eneraduron disel wrth gefn a fyddai'n darparu ynni petai'r trydan o'r Grid Cenedlaethol yn cael ei golli.

Dysgwch fwy ar [wefan EDF](#).

## Y system dŵr oeri


Mewn gorsafoedd ynni niwclear yn y DU, defnyddir dŵr môr fel arfer yn y drydedd gylched ddŵr i oeri cyddwysydd y tyrbin, gan drosi stêm y gylched eilaidd yn ôl yn ddŵr.

Ar gyfer Hinkley Point C, bydd hyn yn gofyn am gyflenwad di-dor o ddŵr o'r Môr Hafren drwy 2 dwnnel mewnbwn 3.3km oddi wrth y lan, un ar gyfer bob adweithydd. Mae pob twnnel mewnlif yn cynnwys 2 ben mewnlif mynediad ochr cyflymder isel (LVSE).

Ar ôl cael ei ddefnyddio yn yr orsaf, byddai'r dŵr môr wedyn yn cael ei ryddhau'n ôl i Fôr Hafren ar dymheredd uwch drwy un twnnel gollwng dŵr oeri (yn gwasanaethu'r ddau adweithydd), oddeutu 1.8km o hyd.

Bydd cyfran fach o ddŵr y môr yn cael ei ollwng yn ôl i Fôr Hafren gan ddefnyddio system adfer a dychwelyd pysgod trwy dwnnel arllwysfa ar wahân, tua 0.5km o hyd.

Mae'r cwmni wedi creu'r diagram hwn yn dangos ei gynnig ar gyfer system gwarchod pysgod.



Mae'r system oeri yn cael ei hystyried gan y 3 rheolydd hyn sydd â phwerau rheoleiddio gwahanol:

- Asiantaeth yr Amgylchedd mewn perthynas â'r drwydded gweithgarwch gollwng dŵr
- Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net (Strategaeth Busnes, Ynni a Diwydiannol yn flaenorol) mewn perthynas â'r [Gorchymyn Cydsyniad Datblygu](#)
- Sefydlriad Rheoli Morol mewn perthynas â'r [drwydded forol](#)

Nid yw Asiantaeth yr Amgylchedd yn rheoleiddio'r mewnlifiad o ddŵr oeri o'r môr yn Hinkley Point C gan fod angen trwydded echdynnu dŵr arnoch ar gyfer cymryd dŵr o lynnoedd, afonydd, aberoedd neu ffrydiau dŵr, neu o ddŵr daear yn unig dan y Ddeddf Adnoddau Dŵr. Ystyrir y mewnlif hwn yn fewnlif o fôr agored.

## Y Drwydded gweithgaredd arllwys dŵr cyfredol

Roedd y cais gwreiddiol am drwydded gweithgaredd gollwng dŵr (yn 2011) yn cynnwys ataliad pysgod acwstig (AFD) wrth ddylunio'r system dŵr oeri. Mae hyn yn defnyddio sain i annog pysgod i symud oddi wrth y mewnlifiad dŵr. Y nod felly yw lleihau nifer y pysgod y gellir eu tynnu i'r beipen. Cynigwyd yr AFD yn un o dri mecanwaith gwarchod pysgod gyda mewnlifiad ochr cyflymder isel a system adfer a dychwelyd pysgod.

Mae'r [drwydded gweithgaredd gollwng dŵr wreiddiol](#), a roddwyd yn 2013, yn caniatáu i'r system dŵr oeri weithredu fel y disgrifir yn y cais. Gwnaethom gynnwys amodau yn y

drwydded honno a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredwr gyflwyno adroddiadau i Asiantaeth yr Amgylchedd yn disgrifio sut y bydd ei AFD arfaethedig yn gweithredu ac yn lleihau unrhyw effeithiau ar bysgod.

Mae'r gweithredwr yn awr yn gofyn i ni ddileu'r amodau hyn o'r drwydded gan nad yw bellach yn bwriadu defnyddio AFD wrth gynllunio'r orsaf.

Mae gofyniad tebyg yn y [Gorchymyn Caniatâd Datblygu](#) ac yn y [drwydded forol](#), a gyhoeddwyd ar yr un pryd â'r drwydded, ar gyfer yr AFD. Rydym wedi dod i'r casgliad mai'r ffordd fwyaf priodol o reoleiddio'r cymeriant dŵr oeri yw drwy'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu. Gwnaethpwyd y penderfyniad hwn mewn ymgynghoriad â Natural England a'r Sefydliad Rheoli Morol, sy'n cytuno â'r dull hwn.

Wrth ystyried y cais hwn am amrywiad yn y drwydded, gwnaethom asesu effeithiau tynnu'r AFD ar y canlynol:

- potensial ar gyfer llygredd dŵr
- cynefinoedd a rhywogaethau a effeithir yn uniongyrchol gan yr arllwys o'r system adfer a dychwelyd pysgod

## Ein penderfyniad terfynol

Ein penderfyniad terfynol yw y dylem ganiatáu'r amrywiad trwydded ar gyfer y gweithgaredd gollwng dŵr. Bydd y terfynau a'r amodau sydd ynghlwm wrth y drwydded yn sicrhau bod pobl a'r amgylchedd yn cael eu diogelu rhag gollyngiadau dŵr o dan weithrediad arferol.

I wneud ein penderfyniad terfynol, rydym wedi ystyried:

- y ddeddfwriaeth berthnasol
- polisi a chanllawiau'r llywodraeth
- ein harweiniad ein hunain
- yr ymatebion perthnasol i'n hymgyngoriadau ar y cais a'n penderfyniad arfaethedig a'n trwydded ddrafft

Wrth ddod i'n penderfyniad, gwnaethom gwblhau'r asesiadau hyn a chyhoeddi'r canfyddiadau:

- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)
- asesiad safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SoDdGA)
- Asesiad cydymffurfiaeth y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD)

## Asesu effeithiau ar safleoedd bywyd gwylt dynodedig

Cyn gwneud penderfyniadau am geisiadau am drwydded, rhaid inni gynnal asesiadau i wirio a allai'r gweithgareddau a gyflawnir o dan drwydded amgylcheddol gael effaith ar safleoedd cadwraeth natur dynodedig. Mae hyn yn cynnwys cynnal HRA ar safleoedd dynodedig Ewropeaidd ac asesiad o weithrediadau sy'n debygol o niweidio SoDdGA.

### Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Mae HRA yn asesiad y mae'n rhaid inni ei gynnal pan fyddwn yn penderfynu ar gais am drwydded ar gyfer gweithgaredd a allai gael effaith sylweddol ar safle dynodedig Ewropeaidd. Nid oes angen i'r gweithgaredd ddigwydd o fewn safle dynodedig Ewropeaidd i gael effaith, ond rhaid cael cyswllt neu lwybr i safle, a rhaid i nodweddion y safle hwnnw fod yn sensitif i'r risglau.

Mae safleoedd dynodedig Ewropeaidd yn cynnwys:

- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) – wedi'u dynodi ar gyfer safleoedd cynefin pwysig o ansawdd uchel a rhywogaethau prin
- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) – i warchod adar prin a bregus
- Safleoedd Ramsar – ar gyfer gwarchod gwlyptiroedd

Mae safleoedd Ramsar yn wlyptiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol a ddynodwyd o dan Gonfensiwn Ramsar, ond mae'n bolisi gan y Llywodraeth eu bod yn cael yr un amddiffyniad ag ACA ac AGA.

Gelwir y cynefinoedd a'r rhywogaethau a warchodir gan y safleoedd dynodedig Ewropeaidd hyn gyda'i gilydd yn 'nodweddion dynodedig'.

Rhaid cynnal yr asesiad ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chaniatâd, cynlluniau a phrosiectau eraill ar nodweddion dynodedig y safleoedd.

### Asesiad Safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SoDdGA)

Mae asesiad SoDdGA yn brawf y mae'n rhaid i ni ei gynnal pan fyddwn yn penderfynu ar gais am drwydded i asesu a yw gweithgaredd yn debygol o niweidio nodweddion safle.

SoDdGA yw'r safleoedd gorau ar gyfer bywyd gwylt a nodweddion naturiol yn Lloegr, gan gynnal llawer o rywogaethau, cynefinoedd a nodweddion naturiol prin ac mewn perygl.

## **Yr hyn y gwnaethom edrych arno yn ein hasesiadau ecolegol**

Fe wnaethom ystyried effaith debygol gollwng pysgod ac infertebratau marw neu wedi'u difrodi (y cyfeirir atyt gyda'i gilydd fel biomas) o'r system adfer a dychwelyd pysgod ar ecoleg ac ansawdd dŵr. Mae hyn yn cynnwys:

- unrhyw effeithiau llethu posibl o'r biomas hwn ar rywogaethau a chynefinoedd
- newidiadau i ansawdd dŵr yn sgil rhyddhau cemegau a maetholion o bydredd y biomas hwn
- yr effaith ddilynol y gall y newid hwn mewn ansawdd dŵr ei gael ar rywogaethau a chynefinoedd
- unrhyw golli cynefin neu newid yng nghyfansoddiad rhywogaethau lleol yn sgil yr effeithiau posibl hyn

Gwnaethom ystyried y gollyngiad hwn yn unig gan mai dyma'r unig un yr effeithir arno gan yr amrywiad hwn i'r drwydded am weithgarwch gollwng dŵr. Ar gyfer ein HRA, fe wnaethom asesu'r holl risgau posibl hyn ar eu pen eu hunain a'u cyfuno â risgau o weithgareddau parhaus eraill a phrosiectau arfaethedig yn yr ardal.

Nodwyd bod gan y safleoedd dynodedig Ewropeaidd canlynol y potensial i gael eu heffeithio'n andwyol gan y risgau a nodir uchod:

- Ardal Cadwraeth Arbennig aber yr Afon Hafren
- Ardal Gwarchodaeth Arbennig aber yr Afon Hafren
- Ramsar aber yr Afon Hafren
- Ardal Cadwraeth Arbennig yr Afon Wysg
- Ardal Cadwraeth Arbennig yr Afon Gwy
- Ardal Gwarchodaeth Arbennig Gwastatiroedd a Rhosydd Gwlad yr Haf
- Ramsar Gwastatiroedd a Rhosydd Gwlad yr Haf
- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Dynesfeydd Môr Hafren

Byddai'r risgau posibl yn deillio o halogiad gwenwynig, gorfaethu, a mygu drwy bysgod ac infertebratau marw ac wedi eu difrodi, gyda'r potensial i achosi colli cynefinoedd a newidiadau yng nghyfansoddiad y gymuned hefyd.

Mae ein HRA yn dangos na fydd rhyddhau pysgod ac infertebratau marw neu wedi'u difrodi o'r system adfer a dychwelyd pysgod yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd y safleoedd dynodedig Ewropeaidd.

## **SoDdGA**

Nodwyd yr 8 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) canlynol fel rhai a allai fod mewn perygl o ganlyniad i'r system adfer a dychwelyd pysgod o Hinkley Point C:

- SoDdGA Bridgwater Bay

- SoDdGA Blue Anchor i Arfordir Lilstock
- SoDdGA Steep Holm
- SoDdGA Brean Down
- SoDdGA Aber yr Afon Hafren
- SoDdGA Flat Holm
- SoDdGA Afon Wysg
- SoDdGA Afon Gwy

Byddai'r risgiau posibl yn deillio o halogiad gwenwynig, gorfaethu, a mygu drwy bysgod ac infertebratau marw a wedi'u difrodi, gyda'r potensial i achosi colli cynefinoedd a newidiad yng nghyfansoddiad y gymuned.

Mae ein hasesiad o safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig yn dangos na fydd rhyddhau pysgod ac infertebratau marw ac wedi'u difrodi o'r system adfer a dychwelyd pysgod yn arwain at ddirywiad yng nghyflwr y safleoedd, ac ni fydd ychwaith yn eu hatal rhag gwella neu adfer pryd bynnag mae angen.

## Cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD)

Pan wnaethom asesu'r risg o lygredd gan bysgod ac infertebratau marw neu wedi'u difrodi, canfuom na fyddai'r newidiadau i ansawdd dŵr yn peryglu amcanion amgylcheddol cyrff dŵr. Gwnaethom edrych ar sut y gallai gollyngiadau effeithio ar yr amgylchedd, ynghyd â'r data sydd ar gael ar weithgareddau eraill, ac ni chanfuwyd unrhyw ddadl dros effeithiau sylweddol.

Cynigiwn felly mai ychydig iawn o risg sydd y bydd y cyrff dŵr hyn yn methu â chyflawni eu hamcanion amgylcheddol oherwydd y gollyngiadau hyn.

## Y drwydded derfynol gyda'i hamodau a'i therfynau

Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth am yr hyn y mae'r amrywiad terfynol i'r drwydded yn ei ganiatáu, ac unrhyw newidiadau i derfynau ac amodau.

Roedd y drwydded wreiddiol, sy'n destun yr amrywiad hwn, yn rheoleiddio'r gweithgareddau gollwng dŵr gweithredol o Hinkley Point C – maent yn ollyngiadau o'r elifion hylifol anymbelydrol hyn:

- dŵr oeri yn dychwelyd o gyddwysyddion y tyrbinau
- elifiannau'r broses fasnachu o amrywiol systemau'r orsaf (gan gynnwys y rheini sy'n cynnal purdeb dŵr a chemeg i gynnal yr amodau gweithredu gorau a gwneud y mwyaf o effeithlonrwydd)
- elifiannau carthffosiaeth wedi'i drin (o gyfleusterau llesiant staff)

Bydd y drwydded amrywiol derfynol hefyd yn awr yn rheoleiddio arllwysiad dŵr môr trwy system adfer a dychwelyd pysgod.

O ganlyniad i'n hasesiad o effaith y system adfer a dychwelyd pysgod, rydym wedi cynnwys cyfngiadau ar gyfaint, cyfradd a chyfanswm y biomas a ollyngr o'r system adfer a dychwelyd pysgod.

Rydym wedi dileu'r holl amodau (neu rannau o amodau) sy'n ymwneud â'r ataliad pysgod acwstig (AFD).

Rydym wedi dod i'r casgliad na fyddai unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd y safleoedd dynodedig Ewropeaidd perthnasol (mewn perthynas â llygredd o ollyngr i ddylloedd) os nad oes AFD ar waith. Mae hyn yn cynnwys y safleoedd hynny sy'n weithredol gysylltiedig ag aber yr Afon Hafren. Ni fydd y gollyngiadau yn arwain at ddirywiad yng nghyflwr SoDdGA perthnasol nac yn eu hatal rhag gwella neu adfer.

Rydym hefyd wedi dod i'r casgliad na fydd yr amrywiad i drwydded yn achosi i statws presennol y cyrff dŵr ddirywio nac yn eu hatal rhag cyflawni eu hamcanion.

Mae'r drwydded amrywio derfynol yn cynnwys y gofyniad i ddefnyddio techneg gweithredu ychwanegol ac amod gwella. Mae hefyd yn cynnwys 2 amod cyn-weithredol sydd angen eu cymeradwyo gan Asiantaeth yr Amgylchedd cyn y gellir comisiynu neu ddechrau gweithredu'r orsaf ynni arfaethedig. Mae'r rhain wedi'u cynnwys i wneud yn siŵr bod NNB Generation Company (Hinkley Point C) Limited yn adeiladu ac yn gweithredu'r orsaf ynni arfaethedig yn unol â'r ymrwymiadau a wnaed yn ei gais amrywio trwydded.

## Ein hymgyngoriadau

Ein nod yw hyrwyddo a chynnal hyder yn ein prosesau gwneud penderfyniad drwy ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd. Ein cyfrifoldeb ni yw gwneud penderfyniadau ynghylch y ceisiadau am drwydded amgylcheddol ar gyfer Hinkley Point C, ond rydym yn ystyried bod ein penderfyniadau yn well drwy ymgynghori.

Gallwn ni i gyd ddiogelu a gwella'r amgylchedd drwy gymryd rhan weithredol. Mae ein [datganiad cyfranogiad y cyhoedd](#) yn dangos sut mae ein proses yn agored, yn dryloyw ac yn ymgynghorol. Hoffem i bobl ddeall ein rôl, yr hyn yr ydym ni'n ei wneud a pham mae'n bwysig.

Pan wnaethom ymgynghori, esboniom nad oedd a wnelo'r ymgynghoriadau â'r angen am ynni niwclear, polisi ynni'r DU na pholisi'n ymwneud â lleoli gorsafoedd ynni niwclear.

Yn ystod yr ymgynghoriadau fe wnaethom rannu gwybodaeth gyda phobl, egluro ein penderfyniad arfaethedig ac ystyried yr adborth a gawsom.

Pwysleisiwyd na fyddem yn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol hyd nes y byddwn wedi ystyried yr holl ymatebion perthnasol i'r ymgynghoriad.

Mae ein hymagwedd at ymgynghori yn unol â'r [egwyddorion ymgynghori](#) a gyhoeddwyd gan y llywodraeth a'n datganiad cyfranogiad y cyhoedd.

Roedd ein hymgyngoriadau yn agored i bawb ac, yn benodol, gwahoddwyd y grwpiau canlynol i gymryd rhan:

- y cyhoedd (gan gynnwys diddordeb lleol a grwpiau gweithredu) yng ngorllewin Gwlad yr Haf a de Cymru ger safle Hinkley
- cynrychiolwyr etholedig, gan gynnwys cynghorwyr lleol ac ASau
- grwpiau pysgota ac amgylcheddol
- academyddion, gwyddonwyr ac ymgynghorwyr sydd â diddordeb mewn ynni niwclear, ynni neu'r amgylchedd
- sefydliadau anllywodraethol (NGOs) a grwpiau ymgyrchu
- sefydliadau a chyrrf cyhoeddus eraill

Fe wnaethom ymgynghori'n gyhoeddus ar:

- Cais NNB Generation Company (Hinkley Point C) Limited i newid y drwydded gweithgaredd gollwng dŵr o 24 Ionawr i 2 Mawrth 2023
- ein penderfyniad arfaethedig a'n trwydded ddrafft rhwng 25 Ebrill a 25 Mai 2023

Ar gyfer ein hymgyngoriad ar y ceisiadau trwydded, daeth 50 o ymatebion i'r ymgynghoriad i law gan aelodau'r cyhoedd, cynghorau lleol, grwpiau amgylcheddol, cyrff ac adrannau cyhoeddus, a phartïon eraill â diddordeb. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad hwn (os rhoddodd yr ymatebydd ganiatâd) ar [wefan ymgynghoriad y cais](#).

Ar gyfer ein hymgyngoriad ar y penderfyniad arfaethedig a'r drwydded ddrafft, cawsom 193 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd y rhain gan aelodau o'r cyhoedd, grwpiau amgylcheddol, cynghorau lleol a phartïon eraill â diddordeb. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad hwn (os rhoddodd yr ymatebydd ganiatâd) ar [wefan ymgynghoriad y penderfyniad arfaethedig](#).

Mae gwybodaeth am ba sefydliadau a ymatebodd a sut y gwnaethom ystyried yr holl faterion perthnasol a godwyd wedi'i chynnwys yn ein [dogfen penderfyniad terfynol](#).

Defnyddiwyd yr ymatebion perthnasol i helpu llywio ein penderfyniad ynghylch caniatâu'r amrywiad i'r drwydded a pha amodau y dylai eu cynnwys. Rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'n hymgyngoriadau a mynchu ein digwyddiadau ymgynghori.

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth fanylach am ein gweithgareddau ymgynghori yn y ddogfen [Crynodeb o'n gweithgareddau ymgynghori](#).

Mae gwerthuso ein hymgyngoriadau yn ein helpu i ddysgu gwersi a rhannu ein profiadau ag eraill. Byddwn yn defnyddio canfyddiadau'r gwerthusiadau hyn i wella ein gwaith ar brosiectau niwclear yn y dyfodol ac ymgynghoriadau perthnasol eraill yr ydym yn eu cynnal.

# Cyhoeddi ein penderfyniad terfynol

Gallwch ddarllen esboniad manwl o'n penderfyniad yn ein dogfen penderfyniad. Mae'n egluro sut rydym wedi ystyried y cais am drwydded a'r ymatebion perthnasol i'r ymgynghoriad, a pham rydym wedi cynnwys yr amodau penodol yn y drwydded rydym yn ei rhoi. Dyma ein cofnod o'n proses gwneud penderfyniadau, i ddangos sut yr ydym wedi ystyried yr holl ffactorau perthnasol wrth wneud ein penderfyniad.

Gallwch ddod o hyd i'n dogfen penderfyniad ar [GOV.UK](#) a [gwefan ymgynghori Asiantaeth yr Amgylchedd](#).

Rydym wedi cyhoeddi'r dogfennau canlynol:

- trwydded ar gyfer gweithgaredd gollwng dŵr
- dogfen penderfyniad ar gyfer gweithgaredd gollwng dŵr

Rydym wedi ail-gyhoeddi'r dogfennau canlynol:

- Adroddiad asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
- Adroddiad asesiad SODdGA
- Adroddiad asesiad cydymffurfiad WFD

## Camau nesaf

### Cyfleoedd i ddweud eich dweud yn y dyfodol

Mae'n debygol y bydd cyfleoedd pellach i gyfrannu at ein penderfyniadau ar drwyddedau amgylcheddol eraill ar gyfer y safle hwn.

Gallai NNB Generation Company (Hinkley Point C) Limited wneud cais am ystod o drwyddedau amgylcheddol yn ymwneud ag **ymchwiliad safle, gwaith adeiladu ac ar gyfer 'datblygiadau cysylltiedig'** perthnasol megis llety gweithwyr.

Lle bo'n briodol, byddwn yn ymgynghori ar y ceisiadau am y trwyddedau hyn. Byddwn yn gwneud ein penderfyniad unwaith y byddwn wedi ystyried y sylwadau a gawn yn yr ymgynghoriad. Nid yw gweithgareddau adeiladu yn unigryw i ddatblygiadau niwclear ac mae cyfyngiad amser arnynt, felly byddwn yn ymdrin â'r ceisiadau hyn am drwyddedau fel y byddem ar gyfer mathau eraill o safleoedd adeiladu. Mae hwn yn ddull cymesur a fydd yn ein helpu i arfer y rheolaeth reoleiddiol orau ar weithgareddau adeiladu sy'n newid yn gyflym.

Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn derbyn ceisiadau pellach am newidiadau (amrywiadau) i'r **3 trwydded gweithredu** ac am drwyddedau amgylcheddol eraill sy'n ymwneud â gwaith ar y safle. Lle bo'n briodol, byddwn yn ymgynghori ar y rhain.

## Ymgysylltu yn y dyfodol

Byddwn yn parhau â'n rhaglen o ohebiaethau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer Hinkley Point C a datblygiadau a phrosiectau niwclear eraill. Mae hyn yn cynnwys cynnal digwyddiadau gyda chymunedau a rhanddeiliaid.

Dysgwch fwy am ein gwaith yn [Hinkley Point C](#).

Darllenwch ein [cynllun ymgysylltu Hinkley](#).

## Cysylltu â ni

Gallwch roi adborth ar y ddogfen hon neu ein gwaith yn rheoleiddio Hinkley Point C. E-bostiwrch eich cwestiynau a'ch sylwadau i [niwclear@environment-agency.gov.uk](mailto:niwclear@environment-agency.gov.uk)

## Cyfieithu graffig

### Tudalen 8

|                               |                                |
|-------------------------------|--------------------------------|
| Steam Generator               | Generadur Stêm                 |
| Pressurizer                   | Gwasgydd                       |
| Control rod Drive Mechanism   | Mecanwaith Gyrru Gwialen Reoli |
| Primary Pump                  | Pwmp Cynradd                   |
| Reactor Core                  | Craidd yr Adweithydd           |
| Vessel                        | Llestr                         |
| Primary System                | System Gynradd                 |
| Secondary System              | System Eilaidd                 |
| Steam                         | Stêm                           |
| Water                         | Dŵr                            |
| Turbine                       | Tyrbin                         |
| Transformer                   | Newidydd                       |
| Generator                     | Generadur                      |
| High Voltage Electrical Lines | Llinellau Trydan Foltedd Uchel |

|                |                    |
|----------------|--------------------|
| Feedwater Pump | Pwmp Dŵr Porthiant |
| Reheater       | Ailgynhesydd       |
| Cooling Water  | Dŵr Oeri           |
| Condenser      | Cyddwysydd         |

## Tudalen 9

|   |   |
|---|---|
| Water intakes 3.3km                       | Cymeriant dŵr 3.3km                                 |
| Water outfall 2km                         | Arllwysfa dŵr 2km                                   |
| Fish return pipe 0.5km                    | Pibell dychwelyd pysgod 0.5km                       |
| Sea water returned to Bristol Channel     | Dychwelyd dŵr y môr i Fôr Hafren                    |
| Water from Bristol Channel                | Dŵr o Fôr Hafren                                    |
| Heat transferred via cooling process      | Trosglwyddo gwres trwy'r broses oeri                |
| Screen transfers fish to return pipe      | Sgrin yn trosglwyddo pysgod i bibell ddychwelyd     |
| Bristol Channel                           | Môr Hafren  |
| Key                                       | Allwedd   |
| Labels in blue show existing buildings    | Mae labeli glas yn dangos adeiladau presennol       |
| Labels in white show planned construction | Mae labeli mewn gwyn yn dangos adeiladu arfaethedig |
| Hinkley Point A                           | Hinkley Point A                                     |
| Hinkley Point B                           | Hinkley Point B                                     |

# A hoffech wybod mwy amdanom, neu eich amgylchedd?

Yna ffoniwch ni ar:

03708 506 506 (Dydd Llun i ddydd Gwener, 8am hyd 6pm)

E-bost: [enquiries@environment-agency.gov.uk](mailto:enquiries@environment-agency.gov.uk)

Neu ewch i'n gwefan:

[www.gov.uk/environment-agency](http://www.gov.uk/environment-agency)

## Ilinell digwyddiadau

0800 807060 (**24 awr**)

## Ilinell llifogydd

0345 988 1188 (**24 awr**)

Dysgwch am gostau galwadau (<https://www.gov.uk/call-charges>)

## Amgylchedd yn gyntaf

Ydych chi'n darllen hyn ar sgrin? Ystyriwch yr amgylchedd a dim ond argraffu hwn os oes arnoch wirioneddol angen gwneud hynny. Os ydych yn darllen copi papur, peidiwch ag anghofio ailddefnyddio ac ailgylchu.